Bwletin y Cyflogwr

Cyllid & Thollau EM

Eich llwybr i'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gyflogres

Ebrill 2011 Rhifyn 38

Cyllideb 2011 – Esbonio cyhoeddiadau ynglŷn â'r gyflogres

Llun trwy garedigrwydd Trysorlys EM

Croeso

Helo a chroeso i rifyn arall o Fwletin y Cyflogwr. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys llawer o awgrymiadau defnyddiol a gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno eich Datganiadau, talu CThEM a sut i osgoi cosbau.

Ar dudalennau 4 i 6 mae crynodeb o ddatganiadau'r Gyllideb ar 23 Mawrth a allai gael effaith arnoch, gyda chysylltiad i bob un o ddatganiadau'r Canghellor.

Mae'r erthygl ar dudalen 14 yn sôn mwy wrthych ynglŷn â'n Offer TWE Sylfaenol newydd (CD-ROM y Cyflogwr yn flaenorol) a phryd y gallwch ddisgwyl y diweddariad nesaf. Mae nifer ohonoch wedi gofyn ymhle y gellir canfod rhaglenni penodol a arferai fod ar y CD-ROM, erbyn hyn?

Mae cyfrifianellau treth a CYG ar ein gwefan yn:

- Cyfrifiannell Treth TWE www.hmrc.gov.uk/calcs/paye.htm
- Cyfrifiannell CYG www.hmrc.gov.uk/calcs/nice.htm
- Cyfrifiannell AEP Cyfarwyddwyr www.hmrc.gov.uk/calcs/nicd.htm

Mae yna ddau opsiwn ar gael yn awr ar gyfer eich atgoffa o ddyddiadau TWE pwysig

- Dyddiadur y cyflogwr yn www.hmrc.gov.uk/employers/April.htm
- System rhybuddion e-bost ar gyfer dyddiadau cau treth, y gallwch ei gosod ar gyfer eich anghenion personol, ar wefan Business Link yn http://online.businesslink.gov.uk/bdotg/action/keydates?r.l1=1073858808&r.s=tl

Peidiwch ag anghofio fod yr holl wybodaeth ynghylch TWE, arweiniad a ffurflenni yn awr i'w cael ar-lein yn www.businesslink.gov.uk/payeformsandpublications

Mae Pecyn y Cyflogwr, sy'n cynnwys ffurflenni, llyfrau cymorth a thablau Cymraeg i'ch cynorthwyo i baratoi a chyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) a dechrau'r flwyddyn dreth newydd ar gael yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/emp-pack.htm

Yn olaf, os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â diwyg neu gynnwys y Bwletin, neu os hoffech weld rhywbeth penodol wedi ei gynnwys, cysylltwch â mi yn Alison.bainbridge@hmrc.gsi.gov.uk



Alison Bainbridge
Golygydd

Cynnwys

4 Cyhoeddiadau'r Gyllideb 2011 Gwybodaeth o bwys

7 Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr

9 P60 electronig

10 Ffurflen P14 bapur

11 Diddymu cardiau Rhif Yswiriant Gwladol

Is-gontractwyr Cwmni Cyfyngedig yn y Diwydiant Adeiladu

12 Gwyliau rhanbarthol cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y Cyflogwr ar gyfer busnesau newydd

13 Cosbau am beidio â chyflwyno gwybodaeth ar-lein ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael

Ymgynghoriad ynghylch Isafswm Cyflog Cenedlaethol

14 Gwybodaeth TWE nawr ar-lein Gwybodaeth o bwys

15 Newyddion pwysig ar gyfer defnyddwyr Gwyliwr Bwrdd Gwaith (PDV) TWE

Pecyn Cymorth Yswiriant Gwladol a Thaliadau statudol

16 Talu CThEM

18 Mae'n boen pan fyddwch yn talu a ninnau'n anfon nodyn atgoffa atoch. Nid ydym ni'n ei hoffi chwaith!

21 A ydych chi'n gyflogwr sy'n gofyn i CThEM roi manylion y taliadau TWE a wnaethoch?

22 Hysbysu am Dreuliau a Budd-daliadau – eich cynorthwyo i'w gael yn iawn y tro cyntaf

23 Talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A

24 Angen ychydig o gymorth?

25 Mae oed Pensiwn y Wladwriaeth (SPa) ar gyfer merched yn newid

26 Ffurflenni TAW ar-lein

27 Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr: Newidiadau pwysig

28 Gwariant moduro perthnasol

Didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr

29 Newidiadau i Lyfrynnau Cymorth y cyflogwr

30 Ymgyrch adnewyddu Credydau Treth

31 Dyddiadur y cyflogwr

33 Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

Gwybodaeth o bwys Gwybodaeth ac erthyglau y mae'n hanfodol eu darllen

Gwybodaeth o bwys

Cyhoeddiadau'r Gyllideb 2011

Traddododd Canghellor y Trysorlys ei Gyllideb ar 23 Mawrth 2011. Mae'r erthygl hon yn rhoi crynodeb byr o'r datganiadau a all effeithio ar weithrediad eich ymrwymiadau cyflogres i CThEM. Gellir canfod manylion llawn o ddatganiadau'r Canghellor yn www.hmrc.gov.uk/budget2011/

Blwyddyn dreth gyfredol

2011-12

Yn ei Gyllideb ar 23 Mawrth 2011, cadarnhaodd Canghellor y Trysorlys y datganiadau a wnaed yn ei Gyllideb ym mis Mehefin 2010 ac ar 2 Rhagfyr 2010 ar Lwfansau Personol, cyfraddau Treth Incwm ac ystodau band Treth Icwm ar gyfer 2011-12. Mae terfynau enillion a throthwyon Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1 yn parhau i fod heb eu newid o'r rhai hynny a gadarnhawyd yng nghyllideb mis Mehefin 2010 ac ar 2 Rhagfyr 2010.

Gellir canfod manylion cyfraddau a therfynau TWE ac Yswiriant Gwladol yn www.hmrc.gov.uk/paye/rates-thresholds.htm neu yn Llawlyfr y Cyflogwr E12, Cyfraddau a therfynau TWE a CYG ar gyfer 2011–12.

Ar gyfer codau 2011-12 dylech ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar ffurflen P9X (2011) *Codau treth i'w defnyddio o 6 Ebrill 2011* er mwyn cofnodi'r cod treth cywir ar y Taflenni Gwaith Didyniadau P11 neu gofnod cyfatebol. Mae Ffurflen P9X ar gael ar-lein i'w lawrlwytho neu argraffu yn www.hmrc.gov.uk/paye/forms-publications.htm

Nid oes newid i fersiynau Ebrill 2011 o feddalwedd y Gyflogres a Thablau Treth y dylid eu defnyddio o 6 Ebrill 2011.

Newidiadau eraill ar gyfer 2011-12

Taliadau Lwfans Milltiroedd wedi'u Cymeradwyo (AMAPs)

Pan fydd cyflogeion yn defnyddio eu ceir eu hunain ar gyfer milltiroedd busnes gallant hawlio ad-daliad oddi wrth eu cyflogwyr drwy'r cyfraddau taliadau lwfans milltiroedd wedi'u cymeradwyo (AMAPs), na chaiff eu hystyried fel bod yn fudd-dal trethadwy. Lle telir llai na'r symiau hynny i gyflogeion gan eu cyflogwyr, gallant hawlio Rhyddhad Lwfans Milltiroedd (MAR) ar gyfer y swm sy'n weddill.

O 6 Ebrill 2011, y cyfraddau AMAPs yw 45 ceiniog y filltir am y 10,000 milltir cyntaf a 25 ceiniog y filltir ar ôl hynny. Mae'r gyfradd hefyd yn gymwys ar gyfer MAR. Yn atodol i hawlio cyfraddau AMAPs, caiff lwfans ar gyfer taliadau teithwyr, sy'n 5 ceiniog y teithiwr ar hyn o bryd, ei ymestyn i wirfoddolwyr.

Rydym yn diwygio ein arweniad ar-lein i adlewyrchu'r newid hwn ond os ydych wedi lawrlwytho fersiwn bapur o Lawlyfr y Cyflogwr E12, cyfraddau a therfynau TWE a CYG ar gyfer 2011–12, dylech nodi'r newid hwn ar dudalen 3.

Gwariant Moduro Perthnasol (RME)

Mae'r Swm Cymwys (QA) i'w ddefnyddio yng nghyfrifiad y CYG Dosbath 1 sy'n ddyledus ar dreuliau moduro cyflogai sy'n defnyddio ei gerbyd/cherbyd ei hun at ddibenion busnes wedi ei gynyddu i 45c y filltir o 6 Ebrill 2011.

Codiant buddiant tanwydd

O 6 Ebrill 2011, caiff y lluosydd codiant buddiant tanwydd a ddefnyddir i gyfrifo'r dreth sy'n daladwy ar danwydd rhad ac am ddim ar gyfer ceir cwmni ei gynyddu drwy fynegeio'n unig o £18,000 i £18,800.

erthygl yn parhau >

Buddiant Fan a Thanwydd Fan

Mae'r codiant buddiant fan wedi ei gloi ar £3,000 ar gyfer 2011-12. Mae'r codiant buddiant tanwydd fan hefyd wedi ei gloi ar £550 ar gyfer 2011-12.

Blynyddoedd Treth i ddod

Newidiadau i lwfansau personol

Ar gyfer 2012-13 y lwfans personol ar gyfer y rhai hynny o dan 65 oed fydd £8,105 a therfyn y gyfradd sylfaenol fydd £34,370. Caiff cynydd mewn lwfansau treth incwm eraill eu seilio ar y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) ('mynegeio'). Caiff symiau gwirioneddol y lwfansau eraill eu cyhoeddi tuag at ddiwedd 2011.

Trothwyon cyfraniadau Yswiriant Gwladol

O 2012-13 bydd y sail ar gyfer mynegeio'r trothwyon cyfraniadau Yswiriant Gwladol canlynol yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu Defnyddwyr (CPI).

- Terfyn Enillion Isaf Dosbarth 1 – sef lefel yr enillion pan fydd cyflogeion yn dechrau cronni hawliau budd-dal ar sail cyfraniadau
- Prif Drothwy Dosbarth 1 – sef lefel yr enillion pan fydd cyflogwyr yn dechrau talu CYG Dosbarth 1
- Bydd y Trothwy Eilradd ar gyfer CYG Dosbarth 1 y cyflogwr wedi ei or-fynegeio o'i gymharu â CPI, a bydd yn codi gan yr hyn sy'n gyfwerth i'r Mynegai Prisiau Manwerthu drwy gydol cwrs y Senedd hon.

Bydd lefel flynyddol Terfyn Enillion Uchaf Dosbarth 1 yn parhau i gael ei alunio â throthwy cyfradd uwch treth incwm (swm y lwfans personol a'r terfyn cyfradd sylfaenol).

Cyfradd treth car cwmni

O 6 Ebrill 2013 caiff y ganran briodol ar gyfer pob cerbyd â charbon deuocsid rhwng 95g a 220g y cilomedr ei chynyddu gan 1 pwynt canran. Bydd ceir ag allyriant o sero yn cadw canran briodol ar 0 y cant, a bydd ceir ag allyriant gor-isel, i fyny hyd at 75g, yn parhau ar 5 y cant.

Diwygiad i integreiddio gweithrediad treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG)

Mae'r Llywodraeth wedi datgan y bydd yn ymgynghori ar yr opsiynau, cyfnodau ac amseriad diwygiadau i integreiddio gweithrediad treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG).

Wrth archwilio diwygiadau posib mae'r Llywodraeth yn anelu at ddiddymu afluniadau a grëir gan y system dreth, lleihau beichiau ar fusnesau a gwella tegwch ar gyfer unigolion. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y bydd unrhyw newid yn gymhleth ac yn golygu ystod eang o faterion ynghylch polisi a gweithrediad.

Caiff dogfen ymgynghori ei chyhoeddi'n hwyrach eleni, gan amlinellu'r gwahaniaethau yn y systemau treth incwm ac Yswiriant Gwladol cyfredol, ac opsiynau i fynd i'r afael â'r rhain. Bydd y Llywodraeth yn cynnal yr egwyddor gyfrannol ac yn adlewyrchu hyn mewn unrhyw newidiadau y bydd yn eu dwyn ymlaen.

Ni fydd y Llywodraeth yn ymestyn CYG i unigolion uwchlaw oed Pensiwn y Wladwriaeth neu i unrhyw fathau eraill o incwm megis pensiynau, cynilon a difidendau.

erthygl yn parhau >

Tâl cudd – incwm cyflogaeth a ddarperir drwy ymddiriedolaethau a threfniadau trydydd parti

Mae rheolau gwrth-osgoi *(anti-avoidance)* yn cael eu cyflwyno er mwyn atal y defnydd o drefniadau trydydd parti penodol a ddefnyddir gan gyflogwyr i guddio tâl cyflogeion mewn ymgais i osgoi, lleihau neu ohirio rhwymedigaethau TWE a CYG, neu i osgoi cyfyngiadau ar ryddhad treth pensiynau. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr sy'n defnyddio'r mathau o drefniadau yr effeithir arnynt gan y rheolau newydd eisoes yn debygol o fod yn ymwybodol o'r weithred y mae'r Llywodraeth yn ei chymryd.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r newidiadau, ewch i www.hmrc.gov.uk/budget2011/tiin8300.htm neu gweler y 'Cwestiynau a Ofynnir yn Aml' yn www.hmrc.gov.uk/budget-updates/march2011/

Caiff gwybodaeth a chanllawiau manwl bellach eu cyhoeddi ar wefan CThEM yn hwyrach eleni.

Rhodd Cymorth – Ffurflenni newydd i alluogi sefydliadau i gofrestru a gwneud cais am ryddhad treth

Ar 30 Mawrth 2011 cyflwynwyd ffurflenni ag arddull newydd ar gyfer Elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASCs) i'w galluogi i gofrestru gyda CThEM er mwyn bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad treth, gwneud cais am ad-daliad o dreth unwaith eu bod wedi cofrestru a hysbysu am newidiadau i'w helusen/CASC.

Mae'r ffurflenni newydd yn disodli ffurflenni cyfredol a ddefnyddir gan elusennau a CASCs a'r rhai hynny ar y Cryno Ddisg Pecyn Cymorth Rhodd Cymorth 2009 a'r rhyngrwyd.

Er mwyn lawrlwytho'r ffurflenni hyn ac hefyd ar gyfer arweiniad cam wrth gam ar sut i gwblhau pob ffurflen gweler ein gwefan yn www.hmrc.gov.uk/charities-donors

Bydd y ffurflenni newydd yn helpu elusennau a CASCs i'n darparu â gwybodaeth gywir ac i'r funud, a sicrhau y delir â cheisiadau am ad-daliad cyn gynted â phosib.

Gwybodaeth o bwys

Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr

Anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) ar-lein ac mewn amser.

Mae'n ofynnol ar bron a bod pob cyflogwr i gyflwyno eu Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) ar-lein. Mae'n rhaid i'ch Datganiad Blynyddol y Cyflogwr ein cyrraedd erbyn 19 Mai 2011. Ni fydd cyfnod gras y tu-hwnt i'r dyddiad hwnnw.

Unwaith bod eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr wedi'i gwblhau, mae'n rhaid iddo fodloni manylebion dilysu safon ansawdd CThEM i sicrhau ei fod wedi ei brosesu'n gywir. Am wybodaeth i'r funud ar reolau dilysu busnes, ewch i www.hmrc.gov.uk/ebu/qual_stand.htm

Mae yna gamau y gallwch eu cymryd er mwyn osgoi gwallau: am fwy o wybodaeth ar osgoi a chywiro gwallau yn eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr, ewch i www.hmrc.gov.uk/paye/payroll/year-end/errors.htm

Os nad ydych wedi anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr ar-lein yn flaenorol, mae'n rhaid i chi weithredu'n awr drwy gofrestru ar gyfer gwasanaeth ar-lein CThEM a chaniatáu digon o amser er mwyn actifadu eich gwasanaeth. Gellir canfod mwy o wybodaeth ynglŷn â chyflwyno ar-lein a chofrestru yn www.businesslink.gov.uk/usingpayeonline

Awgrymwn eich bod yn cyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr ar-lein cyn gynted â'i fod yn barod. Peidiwch ag aros tan y funud olaf cyn anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr. Caniatewch ddigon o amser rhag ofn fod angen i chi i ail-gyflwyno cyn y terfyn amser statudol.

Os byddwch yn anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr ar bapur, mae'n bosib y cewch gosb. Am fwy o wybodaeth ynglŷn a hyn ewch www.hmrc.gov.uk/paye/problems-inspections/wrong-filing-method.htm

Cofiwch, er mwyn osgoi cosbau, eich bod yn cyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr cyn gynted ag y gallwch cyn 19 Mai 2011.

Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) wedi'u diwygio

Pan fydd angen i chi anfon gwybodaeth bellach ar ôl i chi gyflwyno eich Datganiad gwreiddiol, naill ai fel Datganiad llawn neu mewn rhannau, mae'n angenrheidiol i gyflwyno Datganiad ychwanegol. Ni all ambell feddalwedd gynnal cyflwyniad Datganiad ychwanegol. Os mai dyma'r achos gallwch ddefnyddio Datganiad Ar-lein a Ffurflenni CThEM – gwasanaeth TWE yn www.hmrc.gov.uk/paye/payroll/year-end/annual-return.htm

Dylid defnyddio'r meddalwedd hwn ar gyfer cyflwyniadau sydd â hyd at 50 o ffurflenni P14. Ni ddylid ei ddefnyddio i gyflwyno P35 heb unrhyw ffurflenni P14. Os fydd unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn yn codi cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Gwasanaethau Ar-lein (gwasanaeth Saesneg yn unig) yn http://search2.hmrc.gov.uk/kbroker/hmrc/atoz/atoz.jsp?letter=O

erthygl yn parhau >

Consesiwn Statudol Ychwanegol (ESC) B46 wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2011

Yn y rhifyn blaenorol o'r Bwletin, gwnaethom ddweud wrthych y byddai'r cyfnod gras ychwanegol a ganiateir gan ESC B46 yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011.

Cyflwynwyd y consesiwn er mwyn sicrhau na chodwyd cosbau pan fyddai cwsmeriaid wedi cymryd pob cam rhesymol i gyflwyno Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr ar amser ond wedi eu hatal rhag gwneud hynny, er enghraifft o achos oedi'r post. Am fod yn rhaid cyflwyno bron a bod pob Datganiad yn electronig erbyn hyn, dianghenraid yw'r consesiwn hwn.

Peidiwch ag aros tan y funud olaf cyn cyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr. Mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno o fewn amser da er mwyn bodloni'r terfyn amser statudol, am na fydd yna estyniad i'r dyddiad cau ar cyfer cyflwyno, sef 19 Mai.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag ESC B46 ac er mwyn gweld Brîff Cyllid a Thollau 24/10 ewch i www.hmrc.gov.uk/briefs/company-tax/brief2410.htm

Dim Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) i'w gyflwyno ar gyfer 2010-11

Nid yw'n ofynnol ar gyflogwyr nad oedd yn rhaid iddynt gwblhau taflen waith didyniadau P11, neu gyfwerth, yn ystod y flwyddyn dreth 2010-11, anfon Datganiad Blynyddol y Cyflogwr atom. Serch hynny, mae'n rhaid iddynt ddweud wrthym nad oes ganddynt Ddatganiad i'w gyflwyno, fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion ac arbed anfon nodynnau atgoffa dianghenraid a chosbau.

Y llynedd, gwnaethom gyflwyno dwy ffurflen e-bost strwythuredig, un ar gyfer cyflogwyr ac un ar gyfer asiantau, er mwyn rhoi gwybod i CThEM nad oedd ganddynt Ddatganiad i'w gyflwyno ar gyfer 2009-10 (sylwer mai gwasanaeth Saesneg yn unig yw hwn). Gwnawn barhau i ddarparu'r cyfleuster hwn ar gyfer 2010-11. Mae dwy ffurflen strwythuredig newydd bellach ar gael ar y wefan, i'ch cynorthwyo i wneud hyn.

Mae defnyddio'r ffurflenni hyn yn gyflymach, rhatach a rhwyddach nag ysgrifennu neu ffonio. Gwnawn hefyd gadarnhau drwy e-bost pan fyddwn wedi derbyn eich hysbysiad a'ch e-bostio i ddweud wrthych pan ein bod wedi gweithredu yn ei gylch.

Y llynedd nid oeddem yn gallu gweithredu ynghylch nifer sylweddol o ffurflenni, am na allem gysylltu'r cyfeirnod a roddwyd ar y ffurflen honno â chofnod cyflogwr. Gan hynny, sicrhewch fod y cyfeirnod a rowch ar y ffurflen yn gywir. Os nad ydych yn siŵr beth yw eich cyfeirnod cyflogwr gallwch ei ganfod ar flaen eich llyfryn slip talu melyn (P30BC) neu ar nodynnau atgoffa electronig TWE y byddwn yn eu hanfon atoch bob blwyddyn.

Dylech ond defnyddio'r ffurflen sydd ar y rhyngrwyd i ddweud wrthym nad oedd gennych Ddatganiad i'w wneud ar gyfer 2010-11. Os ydych am ein hysbysu ynglŷn â blwyddyn flaenorol gallwch ysgrifennu atom neu ffonio llinell gymorth y cyflogwr. Er mwyn defnyddio'r ffurflenni ac am wybodaeth bellach ewch i www.businesslink.gov.uk/noemployerreturn

P60 electronig

Mae newidiadau wedi eu gwneud i'r rheoliadau TWE er mwyn caniatáu i gyflogwyr roi gwybodaeth P60 i'w cyflogeion yn electronig. Bydd y newidiadau hyn yn gymwys o'r flwyddyn dreth 2010-11 ymlaen. Nid oes newid i'r terfyn amser ar gyfer rhoi'r wybodaeth P60, sef 1 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth.

Pan yn penderfynu p'un ai i ddarparu ffurflenni P60 yn electronig neu beidio mae'n bosib y bydd angen i chi gytuno â'r cyflogai eu bod am dderbyn eu P60 yn electronig.

Bydd angen i chi:

- ystyried galluogrwydd y cyflogai i gyrchu'r wybodaeth honno'n rhwydd
- ddarparu cyfleusterau saff ar gyfer bwrw golwg ar, ac argraffu eu P60. Os nad yw hyn yn bosib gellir anfon y P60 i gyfeiriad e-bost sydd wedi ei gytuno â'r cyflogai.

Pan yn ystyried y pwyntiau hyn mae'n rhaid i chi gofio, fel cyflogwr, fod gennych ymrwymiadau ynghylch gwarchod data ac o dan ddeddfwriaeth y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA), sydd wedi eu llunio er mwyn gwarchod eich cyflogeion.

Gwnawn barhau i ddarparu'r ffurflenni P60(Continuous) a P60(SingleSheet) ar bapur a gallwch sganio'r ffurflenni hyn a'u troshaenu â manylion eich cyflogeion.

Nid yw'r ffurflen P60 na'r wybodaeth y mae'n ei chynnwys yn newid

Ni fydd angen cymeradwyaeth gan CThEM ar y dull electronig y trosglwyddir y P60 drwyddo. Fodd bynnag, gan yr ystyrir yr allbwn ar bapur sy'n codi o'r wybodaeth electronig honno fel 'ffurflen P60 sy'n cyfateb' fe fydd ar y cynnwys awgrymedig angen cymeradwyaeth CThEM ac, fe fydd angen cymeradwyaeth gan CThEM ar y cynnwys arfaethedig, ac fe fydd yn cael yr un ystyriaeth â'r broses gymeradwyo a ddefnyddir ar gyfer ffurflenni P60 papur sy'n cyfateb. Bydd yn rhaid i ddatblygwyr meddalwedd a chyflogwyr felly anfon dau ddrafft neu broflen o'r ffurflen arfaethedig i'r cyfeiriad canlynol ar gyfer cymeradwyo:

HM Revenue & Customs
Customer Information Team
Room 54
1st Floor New Wing
Somerset House
Strand
London WC2R 1LB

P60 sy'n cyfateb

Mae'n rhaid i unrhyw P60au sy'n cyfateb sy'n codi o'r allbwn o P60 electronig gynnwys y testun **'copi argraffedig o eP60 yw hwn'**. Mae'n rhaid i hyn fod ar frig y ffurflen yn agos i deitl y ffurflen – P60 Tystysgrif Diwedd Blwyddyn gyda ffont o faint derbyniol, heb fod yn llai na phwynt 10.

erthygl yn parhau >

P60au dyblyg

Ni fydd yn rhaid i P60au dyblyg ar gyfer y flwyddyn dreth 2010-11 ac ymlaen, boed wedi eu darparu ar bapur neu'n electronig, gynnwys anodiad 'dyblyg'.

Ni fydd yn ofynnol i chi gymryd gweithred ychwanegol neu wahanol o ran argraffiadau dilynol neu luosog o'r wybodaeth P60 electronig. Fe fydd pob allbrint yn gopi o P60 wrth ei hun.

Diwygio manylion P60

Os oes angen i chi ddiwygio'r manylion a ddangosir ar P60 wreiddiol, mae'n rhaid i chi roi manylion y diwygiad i'r cyflogai. Gallwch roi llythyr iddynt sy'n dangos y diwygiad neu P60 newydd wedi'i farcio ag 'AMNEWIDIAD'. Gellir darparu'r 'AMNEWIDIAD' hwn ar bapur neu'n electronig.

Ceisiadau am ad-daliad

Ni fydd CThEM yn darparu cyfleuster ar gyfer e-bostio gwybodaeth P60 electronig atom ni. Pan yn prosesu ad-daliadau mae'n dal i fod yn ofynnol gennym i unrhyw gais gael ei ategu gan P60 papur neu argraffiad o P60 electronig.

Diddymu cardiau Rhif Yswiriant Gwladol

Gwnaethom ddweud wrthych ym Mwletin mis Chwefror ein bod yn diddymu'r cerdyn plastig Rhif Yswiriant Gwladol ac yn ei ddisodli â llythyr er mwyn arbed costau. Gwyddwn fod llawer o gyflogwyr yn disgwyl gweld cerdyn Rhif YG unigolyn pan yn ei gyflogi/chyflogi o'r newydd. Mae'n bosib na fydd yr opsiwn hwn bellach ar gael ar gyfer pob cyflogai a fydd yn dechrau gweithio i chi. Yr hyn sy'n bwysig yw'r rhif ei hun. Bydd yn dal i fod angen i chi wybod beth yw'r rhif YG cywir ar gyfer eich cyflogeion, a chofnodi hwn ar eich cofnodion cyflogres a'r Datganiadau yr anfonwch atom.

Rydym eisoes wedi rhoi'r gorau i anfon cardiau plastig at bobl sydd wedi gofyn am un i ddisodli'r cerdyn gwreiddiol. Bellach, pan fydd cwsmer yn gofyn i ni gadarnhau beth yw eu rhif YG, byddwn yn anfon llythyr atynt. O haf 2011 ymlaen, byddwn yn rhoi'r gorau i anfon cardiau Rhif YG at oedolion sy'n gwneud cais drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Bydd unigolion yn derbyn eu rhif YG mewn llythyr hysbysu gan DWP. O'r hydref ymlaen, byddwn yn rhoi'r gorau i anfon cardiau Rhif YG yn gyfan gwbl.

Os nad yw cyflogai newydd yn gwybod beth yw ei rif/rhif YG pan fydd ef/hi yn dechrau gweithio i chi, gofynnwch iddo/iddi wirio slip talu, P60 neu lythyr blaenorol gan CThEM neu DWP.

Os ydyw yn dal i fethu cael gafael ar ei rif/rhif:

- gall ef/hi lenwi'r ffurflen *Your National Insurance Number* yn www.hmrc.gov.uk/forms/ca5403.pdf neu
- gallwch lenwi'r ffurflen *Employees National Insurance trace* yn www.hmrc.gov.uk/forms/ca6855.pdf

Gellir llenwi'r ddwy ffurflen ar-sgrîn yna eu hargraffu cyn eu harwyddo a'u postio atom ni.

Is-gontractwyr Cwmni Cyfyngedig yn y Diwydiant Adeiladu

Gall cwmni cyfyngedig osod unrhyw Ddidyniadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS), a aed iddynt fel is-gontractwyr, yn erbyn eu rhwymedigaeth fisol i dalu didyniadau TWE i CThEM. Mae'n rhaid i ambell gwmni, sydd heb gyflogeion ac nad sy'n rhaid iddynt weithredu TWE ond sy'n mynd i Ddidyniadau CIS, gyflwyno Datganiad Blynyddol y Cyflogwr P35 â chofnod ym mlwch 28 ('didyniadau CIS a aed iddynt'), hyd yn oed os nad oes cofnodion eraill ar y Datganiad.

O'r flwyddyn hon ymlaen gall cwmni cyfyngedig sy'n cyflwyno'r fath Ddatganiad gyflwyno'r Datganiadau hyn ar-lein. Er mwyn gwneud hyn bydd angen i is-gontractiwr y cwmni cyfyngedig gofrestru ar gyfer TWE ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/paye-online/menu.htm a chyflwyno Datganiad y cwmni erbyn y dyddiad cau, sef 19 Mai.

Gwyliau rhanbarthol cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y Cyflogwr ar gyfer busnesau newydd

Gwnaethom eich hysbysu mewn rhifynnau blaenorol o'r Bwletin fod y Canghellor, yn ei Gyllideb fis Mehefin diwethaf, wedi datgan cynllun i helpu cyflogwyr newydd yn ystod eu blwyddyn gyntaf mewn busnes – cyhoeddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf yn rhifyn mis Chwefror o'r Bwletin yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/empbull.htm

Mae rhai busnesau newydd wedi dweud wrthym nad ydynt eto wedi gwneud cais am y cynllun hwn am nad oedd y ddeddfwriaeth mewn lle i'w gynnal. Golygai hyn fod yna risg fod rhai busnesau, a wnaeth fanteisio ar y cynllun yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf ers ei lansio, wedi gorfod talu'r CYG y Cyflogwr y gwnaethont eu hatal o dan y cynllun gwyliau CYG, i CThEM. Roedd hwn yn risg nad oedd rhai busnesau yn barod i'w gymryd.

Y newyddion da yw fod deddfwriaeth Gwyliau CYG wedi dod i rym ar 22 Mawrth 2011. Golyga hyn y gall busnesau newydd cymwys bellach wneud cais heb unrhyw bryder o'r fath.

Mae'n rhaid i unrhyw fusnes newydd sy'n dymuno manteisio ar y Gwyliau CYG – cyn iddynt atal unrhyw CYG y Cyflogwr – gyflwyno cais ar gyfer y cynllun. Gall asiantau bellach gyflwyno ceisiadau ar ran eu cleientiaid y mae CThEM yn dal ffurflen 64-8 ddilys ar eu cyfer. Os ydych eisoes wedi gwneud cais llwyddiannus ar gyfer y cynllun ac wedi cyflogi rhywun ers y flwyddyn dreth 2010-11, dylech fod wedi derbyn ffurflen 'Employer NICs Holiday End of Year Return' erbyn hyn, sydd ei hangen arnoch i'w chwblhau gan ddarparu manylion y gwyliau CYG a hawliwyd. Os nad ydych eisoes wedi derbyn ffurflen, ond wedi gwneud cais llwyddiannus ar gyfer y gwyliau CYG, yna dylech gysylltu â Llinell Gymorth y Cyflogwr ar 0845 302 1489.

Awgryma CThEM eich bod yn cwblhau'r ffurflen Datganiad Gwyliau CYG ar yr un adeg â'ch Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) er mwyn arbed anghysondebau. Tra fod yn rhaid cyflwyno'r P35 a'r P14 ar-lein, mae'n rhaid dychwelyd y Datganiad Gwyliau CYG a'r ffurflenni E89 ategol (neu rai cyfatebol) yn yr amlen a ddarperir, mewn pryd i'n cyrraedd erbyn 19 Mai 2011.

Er mwyn canfod arweiniad cam wrth gam ar gwblhau eich Datganiad Gwyliau CYG, ewch i www.businesslink.gov.uk/nicsholiday

Er mwyn canfod arweiniad cam wrth gam ar gyflwyno eich Datganiad Blynyddol y cyflogwr (P35 a P14) ar-lein, ewch i www.businesslink.gov.uk/payeonline

Cosbau am beidio â chyflwyno gwybodaeth ar-lein ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael

O 6 Ebrill 2009 bu'n ofynnol i gyflogwyr â 50 neu fwy o gyflogeion i gyflwyno ffurflenni P45 (Rhannau 1 a 3), P46, P46 (Pen) a P46 (Expat) ar-lein.

Yn rhifyn mis Chwefror o Fwletin y Cyflogwr, gwnaethom ddweud wrthych y byddwn yn dechrau anfon cosbau at gyflogwyr sydd â 50 neu fwy o gyflogeion ac sydd heb gyflwyno eu ffurflenni ar-lein ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael yn y cyfnod 6 Ionawr 2011 i 5 Ebrill 2011.

Caiff yr hysbysiadau cosb cyntaf eu hanfon ar 26 Ebrill 2011 a byddant yn amrywio o £100 i £3,000, yn dibynnu ar y nifer o ffurflenni a ddylid fod wedi eu cyflwyno ar-lein. Caiff hysbysiadau cosb pellach, am beidio â chyflwyno ffurflenni ar-lein ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael, eu hanfon ar ôl diwedd y chwarteri a ddaw i ben ar 5 Gorffennaf, 5 Hydref, 5 Ionawr a 5 Ebrill.

Mae'n ofynnol i gyflogwyr sydd â llai na 50 o gyflogeion i gyflwyno eu ffurflenni ar-lein ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael, o 6 Ebrill 2011. Er mwyn helpu'r cyflogwyr hynny i ddod yn barod ar gyfer y newidiadau, ni fyddwn yn codi cosbau yn ystod y tri chwarter a ddaw i ben ar 5 Gorffennaf 2011, 5 Hydref 2011 a 5 Ionawr 2012. Yn hytrach, byddwn yn anfon llythyron at gyflogwyr o'n hwyr ym mis Ebrill pan na fyddant wedi cyflwyno ffurflen ar-lein.

Gwnawn anfon un llythyr yn unig ar gyfer bob chwarter i bob cyflogwr. Bydd y llythyr yn cynghori'r cyflogwr ynglŷn ag enghraifft benodol o ffurflen bapur a dderbyniwyd yn y chwarter hwnnw, a ddylai fod wedi ei anfon ar-lein. Ni fydd yn cyfeirio at unrhyw ffurflenni papur a anfonwyd ar ôl hyn. Bydd y llythyr yn cadarnhau'r math o ffurflen ac yn rhoi manylion enw'r cyflogai a'i rif/rhif Yswiriant Gwladol (YG) neu, lle nad yw hwn ar gael, ei ddyddiad/dyddiad geni a'i ryw/rhyw. Diben y llythyr yw i rybuddio cyflogwyr ei bod yn bosib fod yn rhaid iddynt adolygu eu prosesau, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno'r holl ffurflenni perthnasol ar-lein.

Osgowch gosbau drwy sicrhau fod eich holl ffurflenni ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael yn cael eu cyflwyno ar-lein. Yn ogystal, os ydych wedi cyflwyno, neu y disgwylir i chi gyflwyno'r ffurflenni hyn ar-lein, peidiwch ag anfon copi papur o'r ddogfen ar-lein atom. Nid oes angen hyn, a gallai arwain at waith gweinyddu pellach ar eich cyfer chi a CThEM.

Ymgynghoriad ynghylch Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Bu'r Llywodraeth yn ymgynghori ynglŷn â newidiadau posib i'r rheolau isafswm cyflog cenedlaethol ar lety a ddarperir gan gyflogwyr mewn perthynas â myfyrwyr sy'n gweithio rhan-amser ar gyfer eu sefydliad addysg.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori, 'Isafswm Cyflog Cenedlaethol: Myfyrwyr cyflogedig a Gosod yn Erbyn Llety' ar 18 Ionawr 2011 a gellir ei gweld ar wefan BIS yn www.bis.gov.uk/Consultations

Gwnaeth y cyfnod yngynghori bara tan 12 Ebrill 2011. Caiff crynodeb o ymatebion ei gyhoeddi cyn hir.

Gwybodaeth o bwys

Gwybodaeth TWE nawr ar-lein

Yn rhifyn mis Chwefror o'r Bwletin, gwnaethom ddweud wrthych ynglŷn â lansiad yr adnodd ar-lein newydd 'Offer TWE Sylfaenol', i'ch cynorthwyo i redeg eich systemau cyflogres.

Mae'r Offer TWE Sylfaenol (gwasanaeth Saesneg yn unig ar hyn o bryd) yn disodli CD-ROM y Cyflogwr, ac yn rhan o'n hymrwymiad i symud mwy o'n busnes ar-lein a lleihau cost y gwasanaethau rydym yn eu darparu ar hyn o bryd. Mae'r offer newydd yn cynnwys holl nodweddion rhyngweithiol y CD-ROM, ac mae ganddynt hefyd gyfleuster diweddaru'n awtomatig, er mwyn sicrhau eu bod yn cadw i'r funud â'r wybodaeth a'r ffigurau diweddaraf. Bydd diweddariad ar gael yn ystod mis Mai. Fe'ch hysbysir os ydych wedi cadw'r cyfleuster diweddaru'n awtomatig ymlaen (gallwch weld hwn o'r botwm *Options* ar yr hafan) a bod eich cyfrifiadur wedi ei gysylltu i'r rhyngrwyd.

Rydym yn deall y gallai rhai cyflogwyr fod yn pryderu ynghylch gorfod lawrlwytho'r offer newydd. Fodd bynnag, mae adborth a dderbyniwyd hyd yn hyn, gan gyflogwyr sydd eisoes wedi lawrlwytho'r offer, yn dweud wrthym iddynt ffeindio'r lawrlwythiad yn un cyflym, effeithlon ac yn rhwydd i'w ddilyn, a bod y rhaglen yn ymddangos fel petai dipyn cyflymach i ymateb nag yr oedd cyn hyn.

Os ydych wedi defnyddio'r Cyfrifiannell CD-ROM P11 yn ystod 2010-11 bydd angen yr offer newydd arnoch er mwyn cwblhau'r flwyddyn dreth a ddaeth i ben yn 2010-11 a dechrau 2011-12. Gallwch lawrlwytho'r offer a chanfod mwy o wybodaeth ynglŷn â'r offer a'r gwasanaethau byw cyfredol drwy fynd i www.businesslink.gov.uk/basicpayetools

Ym mis Chwefror 2011, gwnaethom hefyd anfon llythyr yn gadael i chi wybod ein bod wedi rhoi'r gorau i anfon Pecynnau y Cyflogwr a Phecynnau'r Gyllideb papur. Y disgwyliad yw y bydd y mwyafrif helaeth o gyflogwyr yn awr yn gallu cyrchu holl wybodaeth, ffurflenni a chanllawiau TWE ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/emp-pack.htm ac yn www.businesslink.gov.uk/payeformsandpublications (Saesneg yn unig).

Er mwyn sicrhau eich bod yn cadw i'r funud ag unrhyw newidiadau TWE, ac yn parhau i gael eich hysbysu pan fydd unrhyw un o'r cynnyrch hyn yn cael eu diweddaru, awgrymwn yn gryf eich bod yn ymrestru ar gyfer derbyn ein rhybuddion e-bost rhad ac am ddim yn www.businesslink.gov.uk/hmrcemployeremailalerts

Sylwer nad yw cofrestru ar gyfer cyflwno ar-lein yn golygu eich bod hefyd wedi cofrestru ar gyfer derbyn y rhybudd e-bost. Mae'n rhaid i chi wneud hyn ar wahân gan ddefnyddio'r cysylltiad uchod.

Mae cofrestru yn gyflym ac yn rhwydd, ac mae dros 200,000 o gyflogwyr wedi gwneud hyd yn hyn. Unwaith eich bod wedi cofrestru, cewch rybudd pan fod gwybodaeth TWE allweddol ar gael.

Newyddion pwysig ar gyfer defnyddwyr Gwyliwr Bwrdd Gwaith (PDV) TWE

Rhaglen yw'r PDV a ddarperir gan CThEM sy'n eich galluogi i fwrw golwg ar, chwilio a threfnu codau treth ar-lein TWE, hysbysiadau a nodiadau atgoffa.

Mae newidiadau mewn hysbysiadau a nodynnau atgoffa sy'n weladwy ar y PDV yn golygu y bu'n rhaid diweddaru meddalwedd y PDV.

Os ydych yn defnyddio rhaglen y PDV sicrhewch eich bod yn lawrlwytho ac yn gosod y fersiwn newydd o feddalwedd y PDV, sydd ar gael o fis Ebrill 2011, ar eich cyfrifiadur fel eich bod yn derbyn y fersiynnau diweddaraf o'r hysbysiadau hyn.

Am fwy o wybodaeth a diweddariadau ynglŷn â'r PDV, ewch i www.hmrc.gov.uk/paye/tools/pdv

Pecyn Cymorth Yswiriant Gwladol a Thaliadau statudol

Yn rhifyn mis Chwefror y Bwletin gwnaethom sôn wrthych am ein bwriad i gyhoeddi pecyn cymorth pellach yn cwmpasu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Thaliadau Statudol.

Mae hwn bellach ar gael i'w lawrlwytho yn www.hmrc.gov.uk/agents/prereturn-support-agents.htm

Pwrpas y pecynnau cymorth hyn yw i helpu i atal gwallau cyffredin rhag digwydd cyn i unrhyw Ddatganiadau gael eu cyflwyno.

Pecynnau Cymorth eraill sydd ar gael

Hyd yn hyn rydym wedi cyhoeddi cyfanswm o 15 pecyn cymorth ay'n cwmpasu nifer o feysydd.

Mae gan bob pecyn cymorth:

1. Rhestr wirio – mae hon yn nodi'r risgiau allweddol
2. Nodiadau eglurhaol – mae'r rhain nodi'r risg o gamgymeriadau sylfaenol, sut i leihau'r risg hynny ac amlinelliad byr ynghylch sut y delir â'r risgiau hynny at ddibenion treth
3. Croesgyfeirio – mae hyn yn darparu modd cyflym a rhwydd o gyfeirio at arweiniad mwy manwl, os oes angen.

Mae'r pecynnau cymorth yn hawdd i'w defnyddio a'r defnydd ohonynt yn gwbl wirfoddol. Caiff pob pecyn cymorth ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth.

Cyhoeddir y pecynnau cymorth mewn fformat PDF ac maent ar gael i'w lawrlwytho yn www.hmrc.gov.uk/agents/prereturn-support-agents.htm

Talu CThEM

Llyfrynnau Slipiau Talu 2011-12

Dylech dderbyn eich Llyfryn Slipiau Talu y Cyflogwr (P30BC) 2011-12 mewn pryd i wneud eich taliad cyntaf ar gyfer 2011-12. Os nad yw eich llyfryn wedi cyrraedd erbyn 6 Mai 2011, defnyddiwch un o'r opsiynau talu electronig y sonnir amdanynt yn hwyrach yn yr erthygl hon. Os nad ydych yn gallu talu'n electronig ffoniwch 0845 302 1489 ac fe wnawn popeth y gallwn i anfon slip talu atoch ar gyfer eich taliad cyntaf.

Gwnawn hefyd anfon llyfryn dyblyg atoch ar gyfer yr hyn sy'n weddill o'r flwyddyn. Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod eich taliad yn ein cyrraedd yn llawn ac ar amser, er mwyn osgoi'r posibilrwydd o godi cosb am dalu'n hwyr.

Defnyddiwch y slip talu cywir

Os byddwch yn defnyddio'r slipiau talu, sicrhewch eich bod yn defnyddio'r un cywir ar gyfer y mis neu chwarter rydych yn talu ar ei gyfer.

Os byddwch yn sylweddoli eich bod wedi defnyddio'r un anghywir, gadewch i ni wybod er mwyn i ni fedru ailddyrannu'r taliad i'r cyfnod cywir, a gweld beth sydd angen gwneud i'ch rhoi yn ôl ar y llwybr cywir gyda'ch taliadau.

Dylech ond defnyddio'r slip talu sbâr ar gefn y llyfryn ar gyfer y flwyddyn dreth sydd wedi'i hargraffu arno. Os oes angen un arnoch ar gyfer blwyddyn dreth wahanol, cysylltwch â ni.

Dylech hefyd gysylltu â ni os oes angen slip talu neu Lyfryn Slipiau Talu yn lle'r un gwreiddiol. Neu gallech ddefnyddio dull o dalu nad oes angen slip talu ar ei gyfer, fel BillPay sy'n daliad drwy gerdyn debyd neu gredyd dros y rhyngrwyd.

Dim taliad yn ddyledus am fis neu chwarter?

Nid oes angen slip talu arnoch i ddweud wrthym nad oes gennych unrhyw beth i'w dalu am fis neu chwarter. Yn hytrach gallwch wneud hyn yn rhwydd ac yn gyflym drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/nilpayedue

Os nad oes angen Llyfryn Slipiau Talu arnoch mwyach

Dim ond os fyddwch yn talu yn eich banc, mewn Swyddfa Bost sy'n rhan o'r cynllun neu drwy'r post y mae angen y Llyfryn Slipiau Talu. Mae'n well gennym eich bod yn talu yn eich banc neu mewn Swyddfa Bost am fod taliadau electronig yn fwy effeithlon.

Os nad oes angen Llyfryn Slipiau Talu arnoch bellach, ac yr hoffech i ni roi'r gorau i'w anfon, rhowch wybod i ni. Bydd hyn yn cynorthwyo CThEM i leihau allyriadau carbon. Gallwch helpu drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein yn www.businesslink.gov.uk/payingpaye

Taliadau electronig 2011-12

Llythyr talu TWE yn electronig

Rydym yn anfon llythyr Talu TWE yn electronig (P30B) at gyflogwyr sy'n talu'n electronig ac nid oes angen slip talu arnynt. Dylai gyrraedd mewn pryd i chi wneud eich taliad cyntaf ar gyfer 2011-12. Os na fydd yn cyrraedd gallwch ganfod manylion y dulliau talu sydd ar gael yn www.businesslink.gov.uk/payingpaye

erthygl yn parhau >

Talu'n electronig

Mae taliad electronig yn un diogel, cyflym a rhwydd. Gallwch ddewis o amrywiaeth o opsiynau talu nad oes angen slip talu ar eu cyfer, gan osgoi unrhyw gostau neu oedi gyda'r post.

Gallwch dalu ar-lein drwy:

- Debyd Uniongyrchol os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth TWE i Gyflogwyr
- Cerdyn Debyd neu Gredyd gan ddefnyddio'r gwasanaeth BillPay (codir tâl o 1.4% am ddefnyddio eich Cerdyn Credyd) yn www.santanderbillpayment.co.uk/hmrc

Defnyddio gwasanaethau eich banc/cymdeithas adeiladu eich hun i dalu drwy:

- Bancio Rhyngrwyd neu Teleffon
- Credyd Uniongyrchol Bacs
- CHAPS.

Os ydych yn dal i dderbyn eich Llyfryn Slip Talu gallwch dalu:

- drwy giro banc yng nghangen eich banc/cymdeithas adeiladu
- mewn unrhyw Swyddfa Bost sy'n rhan o'r cynllun.

Caiff rhain eu hystyried yn daliadau electronig hefyd.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.businesslink.gov.uk/payingpaye

Talu drwy Ddebyd Uniongyrchol Ar-lein

Os ydych:

- wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth TWE i gyflogwyr
- yn gallu awdurdodi Debydau Uniongyrchol o'r banc/cymdeithas adeiladu eich hunan, gallwch wneud eich taliadau TWE misol neu chwarterol drwy Ddebyd Uniongyrchol.

Os oes angen mwy nag un llofnod ar y cyfrif roeddech yn bwriadu gwneud taliadau ohono, dylech siarad â'ch banc/cymdeithas adeiladu er mwyn gweld os byddent yn derbyn awdurdodiad gan un llofnodwr yn unig er mwyn sefydlu Cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol/taliad o blaid CThEM. Os na fydd eich banc/cymdeithas adeiladu yn cytuno i hyn, defnyddiwch un o'r opsiynau talu eraill yn www.businesslink.gov.uk/payingpaye

Yn wahanol i unrhyw ddull talu arall, cewch eich gwarchod gan y Gwarant Debyd Uniongyrchol.

Os mai'r cyfan sy'n eich rhwystro yw nad ydych wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth TWE i Gyflogwyr, beth am gofrestru nawr? Gallwch gofrestru ar ein gwefan, drwy fynd i www.hmrc.gov.uk/cymraeg/paye-online/menu.htm a dilyn y cysylltiadau.

Pan fyddwch yn derbyn eich PIN cychwyn mae'n rhaid i chi ei rhoi ar waith o fewn 28 diwrnod i sicrhau eich bod yn parhau i gael mynediad.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â thalu ar-lein drwy Ddebyd Uniongyrchol ewch i www.businesslink.gov.uk/payingpaye

Mae'n boen pan fyddwch yn talu a ninnau'n anfon nodyn atgoffa atoch. Nid ydym ni'n ei hoffi chwaith!

Mae ein systemau yn ymdopi'n dda iawn â'r mwyafrif o daliadau ond os fyddwch yn gwneud rhywbeth yn wahanol i'r disgwyl, gall hyn achosi dryswch. Weithiau bydd hyn yn digwydd pan anfonir taliadau electronig yn gynharach neu'n hwyrach nag arfer, pan anfonir taliadau lluosog, pan nad oes cyfeirnod gan y taliad neu mae'r cyfeirnod yn anghywir neu o bosib caiff y slip talu anghywir ei ddefnyddio.

Os ydych yn talu'n electronig, dyma sut i sicrhau y gwneir eich taliadau ar amser ac y cânt eu dyrannu'n gywir.

Pan fyddwch yn talu eich didyniadau TWE, gan gynnwys treth, CYG, benthyciadau myfyrwyr a CIS yn electronig mae'n bwysig eich bod yn defnyddio eich Cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon heb unrhyw fylchau rhwng y nodau; fel arall gallai arwain at oedi wrth ddiweddaru eich cofnod i ddangos fod eich taliad wedi ei dderbyn. Gallwch ganfod eich Cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon 13 nod yn y blwch ar yr ochr dde uchaf, ar flaen eich Llyfryn Slipiau Talu neu ar y llythyr 'Talu TWE'n electronig' a anfonwn atoch yn lle'r llyfryn.

Os fyddwch byth yn talu'n gynnar, yn hwyr neu'n anfon mwy nag un taliad ar gyfer yr un cyfnod, dylai'r tabl ar y dudalen nesaf fod o gymorth. Yn syml, mae'n dangos fod angen i chi ychwanegu pedwar rhif o golofn 4 at ddiwedd eich Cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon er mwyn dweud wrthym pa 'flwyddyn dreth sy'n dod i ben' a pha fis treth mae eich taliad ar eu cyfer, felly bydd angen eu newid bob mis. Dylai eich cyfeirnod wedyn fod yn 17 nod o hyd heb unrhyw fylchau rhyngddynt.

Os ydych yn gwneud un taliad yn unig rhwng y dyddiadau a ddangosir yng ngholofn 3 ar gyfer y cyfnod y mae'n perthyn iddo, yna nid oes yn rhaid i chi ychwanegu'r pedwar rhif.

Os ydych yn talu gan ddefnyddio slip talu, defnyddiwch yr un cywir o Lyfryn Taliad y Cyflogwr. Maent wedi eu hargraffu yn ôl trefn y misoedd treth â'r 'cyfnod sy'n dod i ben' yn y gornel dde uchaf. Os ydych yn talu bob mis, dylai hyn fod yn syml, ond mae'n rhaid i dalwyr chwarterol ddefnyddio'r slipiau talu ag enwau misoedd Gorffennaf, Hydref, Ionawr ac Ebrill arnynt. Mae yna slip talu sbâr yng nghefn y llyfryn i'w ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol yn unig.

Mae'n rhaid i chi hefyd, wrth gwrs, sicrhau fod y taliad yn cael ei wneud ar amser oherwydd y gallwn godi cosbau os fyddwch yn talu'n hwyr. Mae yna dabl ar dudalen 20 sy'n dangos yr holl derfynau amser ar gyfer talu, ar gyfer taliadau electronig yn ogystal â thaliadau drwy'r post.

Os ydych yn talu cosb TWE, Cytundeb Setliad TWE neu CYG Dosbarth 1A, peidiwch ag ychwanegu'r taliad at eich taliadau TWE misol neu chwarterol neu ddefnyddio un o'r slipiau talu allan o'r llyfryn. Os fyddwch yn gwneud hyn, ni fydd eich taliad yn cyrraedd y man a fwriadwyd gennych a byddwch yn derbyn nodynnau atgoffa ar gyfer rhywbeth rydych eisoes wedi'i dalu. Anfonir hysbysiad ar wahân atoch ar gyfer talu pob un o'r rhain a dylech naill ai ddefnyddio'r slip talu a ddarparwyd gyda'r hysbysiad hwnnw neu ddilyn yr arweiniad penodol ar gyfer talu'n electronig, er mwyn sicrhau fod eich taliad yn cyrraedd y cyfrif cywir.

erthygl yn parhau >

Sicrhewch fod eich taliad electronig misol/chwarterol ar gyfer 2011-12 yn cael ei ddyrannu'n gywir

Mis neu chwarter a ddaeth i ben 1	Rhif mis neu chwarter 2	Caiff y taliad electronig cyntaf a dderbynnir rhwng y dyddiadau hyn â chyfeirnod y Swyddfa Gyfrifon yn unig ei ddyrannu i'r mis neu'r chwarter a ddangosir yng nghol. 2 3 (Gweler Nodyn 1)	Os yn anfon mwy nag un taliad neu'n talu'n gynharach neu'n hwyrach na chol. 3 ychwanegwch y 4 rhif hwn at ddiwedd eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon 4 (Gweler Nodyn 2)
5ed Mai	M01	6 Mai i 5 Meh	1201
5ed Meh	M02	6 Meh i 5 Gorff	1202
5ed Gorff	M03/Q1	6 Gorff i 5 Awst	1203
5ed Awst	M04	6 Awst i 5 Medi	1204
5ed Medi	M05	6 Medi i 5 Hyd	1205
5ed Hyd	M06/Q2	6 Hyd i 5 Tach	1206
5ed Tach	M07	6 Tach i 5 Rhag	1207
5ed Rhag	M08	6 Rhag i 5 Ion	1208
5ed Ion	M09/Q3	6 Ion i 5 Chwe	1209
5ed Chwe	M10	6 Chwe i 5 Maw	1210
5ed Maw	M11	6 Maw i 5 Ebr	1211
5ed Ebr	M12/Q4	6 Ebr i 5 Mai	1212

Cosbau ar gyfer talu TWE yn hwyr

O fis Mai eleni, byddwn yn dechrau anfon cosbau ar gyfer taliadau TWE hwyr gan gyflogwyr.

Bydd cyflogwyr (a chontractwyr o dan CIS) yn agored i dalu cosb os nad ydynt wedi gwneud taliadau TWE ar amser, ac yn llawn, o Ebrill 2010. Mae hyn yn cynnwys treth incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG), didyniadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) a didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr. Bydd swm y gosb yn dibynnu ar y symiau a dalwyd yn hwyr a chyfanswm y taliadau hwyr a wnaed, ac fe'u cyfrifir fel canran o'r swm a delir yn hwyr.

Mae pob cyflogwr a dalodd yn hwyr o leiaf unwaith yn ystod 2010-11 wedi derbyn llythyr rhybuddio, a byddwn yn codi cosbau ar ôl diwedd y flwyddyn dreth.

Gellir osgoi'r cosbau hyn yn llwyr drwy ganiatáu digon o amser i arian wedi'i glirio ein cyrraedd erbyn y terfyn amser ar gyfer talu (neu'r diwrnod busnes olaf cyn y terfyn amser os yw'n syrthio ar benwythnos/ŵyl y Banc).

Gellir canfod gwybodaeth bellach ynglŷn â phryd a sut i dalu, beth i'w wneud os oes gan bobl broblemau â thalu CThEM, beth sy'n digwydd os nad ydynt yn talu a lle i gael cyngor rhad ac am ddim ac annibynnol ynghylch delio â dyledion, yn www.businesslink.gov.uk/payinghmrc

Nodyn 1 Caiff taliadau ychwanegol eu dyrannu i'r mis dilynol.
Nodyn 2 I wneud taliad ar gyfer blwyddyn dreth flaenorol, er enghraifft 2009-10, ychwanegwch 1013.

erthygl yn parhau >

Peidiwch a'i gadael tan y funud olaf cyn talu – peidiwch â mentro cael eich cosbi!

2011-2012 – terfynau amser taliadau TWE			
Mis neu chwarter a ddaeth i ben	**Rhif mis neu chwarter**	**Mae'n rhaid i CThEM dderbyn arian electronig wedi'i glirio erbyn**	**Mae'n rhaid i CThEM dderbyn sieciau erbyn**
1	2	3 (Gweler Nodyn 1 a 2)	4 (Gweler Nodyn 3)
5ed Mai	M01	20 Mai	19 Mai
5ed Meh	M02	22 Meh	19 Meh*
5ed Gorff	M03/Q1	22 Gorff	19 Gorff
5ed Awst	M04	22 Awst	19 Awst
5ed Medi	M05	22 Medi	19 Medi
5ed Hyd	M06/Q2	21 Hyd	19 Hyd
5ed Tach	M07	22 Tach	19 Tach*
5ed Rhag	M08	22 Rhag	19 Rhag
5ed Ion	M09/Q3	20 Ion	19 Ion
5ed Chwe	M10	22 Chwe	19 Chwe*
5ed Maw	M11	22 Maw	19 Maw
5ed Ebr	M12/Q4	20 Ebr	19 Ebr

Nodyn 1 Ni allwn dderbyn taliadau electronig a anfonir gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Talu'n Gyflymach (FPS). Gan hynny, dylech sicrhau eich bod yn dechrau eich taliad electronig yn ddigon cynnar, fel bod arian wedi'i glirio yn ein cyrraedd erbyn y terfyn amser.

Nodyn 2 Ar gyfer talwyr electronig, mae'n rhaid i ni dderbyn arian wedi'i glirio erbyn y dyddiadau hyn, wedi'i gymhwyso er mwyn cymryd i ystyriaeth pan fydd y dyddiad dyledus ar yr 22ain yn syrthio ar benwythnos neu ŵyl y Banc. Dylech hefyd wirio beth yw'r dyddiad olaf ar gyfer rhoi gwybod i'ch banc neu'ch cymdeithas adeiladu chi eich hun, er mwyn sicrhau na chaiff y taliad ei oedi tan y diwrnod gwaith y banc nesaf.

Ar gyfer cyrchu gwefan arall sy'n rhoi'r dyddiad hwyraf pan fydd angen i chi ddechrau taliad electronig er mwyn iddo glirio cyn y dyddiad dyledus, ewch i www.businesslink.gov.uk/payepaymentdeadlines

Nodyn 3 Sicrhewch fod y taliad yn cyrraedd heb fod yn hwyrach na'r 19eg.

*19eg yn syrthio ar benwythnos neu ŵyl y Banc. Diwrnodau gwaith y banc yw dydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio Gwyliau'r Banc.

Er mwyn creu calendr o ddyddiadau cau allweddol ar gyfer treth ac ymrestru ar gyfer derbyn e-byst rheolaidd ar wefan Business Link, ewch i www.businesslink.gov.uk/bdotg/action/keydates

A ydych chi'n gyflogwr sy'n gofyn i CThEM ddarparu manylion y taliadau TWE a wnaethoch?

Os felly darllenwch ymlaen, mae'r modd rydym yn mynd i'r afael â'r fath geisiadau yn newid.

Mae'n ofynnol ar bob cyflogwr i gadw cofnodion o'r TWE sy'n daladwy ganddynt, a'r taliadau a wneir i ni. Mae ffurflen P32 ar gael i gyflogwyr i'w helpu â'r broses hon.

Hyd yn hyn, rydym wedi ceisio mynd i'r afael â cheisiadau ar gyfer manylion taliadau, ond mae amlder ceisiadau o'r fath yn cynyddu. Er mwyn rheoli hyn rydym yn newid y ffordd rydym yn ymateb i geisiadau.

Lle na allwch gysoni'r sefyllfa gan ddefnyddio'ch cofnodion eich hun ac mae'n anorfod y bydd yn rhaid i chi gysylltu â ni, gofynnwn eich bod yn helpu'ch hun drwy ein helpu ni. Yn hytrach na ffonio neu ysgrifennu gan ofyn i ni restru'r holl daliadau a wnaed rhwng dyddiadau penodol, neu bopeth o ddyddiad penodedig ymlaen, rydym bellach yn gofyn i chi roi'r manylion talu sydd gennych, ac fe wnawn ni eu gwirio.

Lle eich bod yn fusnes mawr ac mae gennych bryderon ynghylch cysoni taliadau TWE dylech barhau i gysylltu â'ch Rheolwr Cysylltiadau â Chwsmeriaid.

Fel arall, lle cawn gais heb yr wybodaeth a ofynnir amdani gwnawn ymateb drwy ofyn i chi ei rhoi cyn ein bod yn mynd â'r mater ymhellach.

Os byddwch yn ffonio'r Llinell Gymorth ar gyfer Taliadau Cyflogwyr neu'n ysgrifennu atom i gadarnhau'r symiau, dyraniad a dyddiadau talu'r dau neu dri taliad diwethaf a wnaed yn ystod blwyddyn TWE gyfredol yna gwnawn hynny dros y ffôn neu ymateb â'r un wybodaeth.

Serch hynny, os ydych yn ceisio cysoni mwy na hyn yna bydd arnom angen i chi ddarparu'r manylion rydych yn eu dal ynghylch taliadau a wnaed a gwnawn wirio hyn ar eich cyfer. Bydd ein hymateb naill ai'n cadarnhau eich manylion neu'n dangos lle mae gwahaniaethau'n bodoli.

Hysbysu am Dreuliau a Budd-daliadau – eich cynorthwyo i'w gael yn iawn y tro cyntaf

Gall gwallau wrth gwblhau P11D'au achosi problemau â chodau treth cyflogeion. Dyma ddau wall cyffredin sy'n effeithio ar brosesu P11D:

- **Dim manylion budd-dal tanwydd:** Ni wnaeth rhai cyflogwyr gwblhau'r maes hwn pan oedd yn gymwys. Canlyniad hyn oedd gorfod cyflwyno P11D'au diwygiedig.
- **Dyddiadau anghywir pan oedd 'car ar gael':** Cwblhau'r dyddiadau 'o' ac 'i' gan ddangos y flwyddyn dreth gyfan, er enghraifft 06/04/2009 i 05/04/2010, i ddangos bod y car ar gael drwy gydol y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, os oedd y car ar gael yn y flwyddyn dreth flaenorol, ni ddylid llenwi'r blwch 'o'. Mae hyn yn gymwys hefyd os bydd y car ar gael yn ystod y flwyddyn dreth nesaf: Ni ddylid cwblhau'r blwch 'i' fel bod y cod treth yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf.

Gall y naill wall a'r llall olygu bod systemau CThEM yn diweddaru codau treth cyflogeion yn awtomatig, yn seiliedig ar wybodaeth anghywir.

Treuliau a budd-daliadau'r Gyflogres – beth sydd angen i chi ei wneud, a sut i'w cofnodi ar eich P11D'au

Ar hyn o bryd, nid oes system ffurfiol mewn lle i dalu buddiannau a threuliau drwy'r gyflogres. Fodd bynnag, mae rhai cyflogwyr yn gwneud hyn, yn nodweddiadol â chytunteb anffurfiol CThEM. Mae angen i gyflogwyr anfon ffurflenni P11D o hyd neu restri cyfatebol os gwnaethant drefnu i dalu buddiannau a threuliau drwy'r gyflogres. Mae'n bosib y bydd cyflogwyr yn agored i gosbau os ydynt yn methu a gwneud hyn.

Er mwyn osgoi prosesu data'n wallus, mae'n hanfodol i hysbysu CThEM bod buddiannau wedi eu rhoi drwy'r gyflogres yn ystod y flwyddyn honno, cyn anfon unrhyw P11D ar-lein.

Er mwyn osgoi prosesu gwybodaeth arall yn wallus, anfonwch ohebiaeth sy'n ymwneud â P11D yn unig gyda'ch P11D'au papur. Gall anfon gohebiaeth arall â P11D'au achosi oedi.

Buddiannau wedi eu talu'n gyfan gwbl drwy'r gyflogres

Mae hyn yn gymwys ar gyfer cyflogwyr sy'n talu'r **holl fuddiannau** i'w cyflogeion drwy'r gyflogres.

- Pwysig; un wythnos cyn anfon y P11D'au, rhowch wybod i Linell Gymorth y Cyflogwr fod yr holl fuddiannau ar gyfer y flwyddyn wedi eu talu drwy'r gyflogres.
- Cwblhewch y blychau 'swm a dalwyd neu y didynnwyd treth ohono' lle maent ar gael, ar gyfer y buddiant perthnasol.
- Gellir anfon gwybodaeth P11D ar-lein neu ar bapur **ond rhaid i bob un fersiwn papur** o'r P11D a'r rhestri P11D gael eu nodi'n glir â: **'TALWYD DRWY'R GYFLOGRES'**.
- Cwblhewch y P11D(b) fel arfer.

Buddiannau wedi eu talu'n rhannol drwy'r gyflogres

Mae hyn yn gymwys ar gyfer cyflogwyr sy'n talu **rhai** buddiannau ar gyfer **ambell neu bob** cyflogai.

- Cwblhewch y blychau 'swm a dalwyd neu y didynnwyd treth ohono' lle maent ar gael, ar gyfer y buddiant cymwys.
- Gallwch anfon y canlynol ar-lein neu ar bapur:
  - Gwybodaeth P11D ar gyfer buddiannau sydd heb eu talu drwy'r gyflogres.
  - Gwybodaeth P11D ar gyfer buddiannau sydd wedi eu talu drwy'r gyflogres, lle mae gan y buddiannau hyn gofnod perthynol ar gyfer 'swm a dalwyd neu y didynnwyd treth ohono'.
- Mae'n rhaid anfon gwybodaeth P11D ar gyfer buddiannau eraill a delir drwy'r gyflogres ar wahân ac ar bapur, a rhaid eu nodi'n glir â: **'TALWYD DRWY'R GYFLOGRES'**.
- Cwblhewch y P11D(b) fel arfer.

Talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A

A ydych chi erioed wedi talu eich Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1A ac yna wedi derbyn nodyn atgoffa oddi wrthym yn dweud nad ydych wedi talu?

Bydd yr erthygl hon yn esbonio rhai o'r gwallau cyffredin i'w hosgoi a fydd yn eich helpu i sicrhau bod eich taliad yn cyrraedd y cyfrif cywir ar yr amser cywir. Mae'n bosib y byddwch eisoes yn ymwybodol o'r trefniadau o ran talu a rhoi cyfrif am CYG Dosbarth 1A ond dyma ychydig o'r hanfodion.

Mae CYG Dosbarth 1A yn ddyledus ar y rhan fwyaf o fuddiannau trethadwy a ddarperir i gyflogeion ac fe'u telir gan gyflogwyr yn unig.

Rydym yn anfon ffurflenni P11D, P9D a P11D(b) sydd angen eu cwblhau a'u dychwelyd erbyn 6 Gorffennaf yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth pan ddarparwyd y buddiannau sy'n agored i CYG.

Anfonir slip talu P30B CL1A, neu nodyn atgoffa dros y rhyngrwyd hefyd ar gyfer y sawl sy'n cyflwyno ar-lein, ar yr un amser. Fodd bynnag, mae'r taliad sy'n daladwy ar gyfer y CYG Dosbarth 1A a ddatganwyd ar ffurflen P11D(b) yn ddyledus yn hwyrach na'r Datganiadau, ond rhaid iddo glirio erbyn 22 Gorffennaf pe telir drwy ddulliau electronig, neu ei dderbyn erbyn 19 Gorffennaf os caiff ei dalu â siec. Caiff llog sy'n ddyledus ar CYG Dosbarth 1A 2010-11 a delir yn hwyr ei gyfrifo o 19 Gorffennaf 2011.

Dyma'r gwallau cyffredin i'w hosgoi pan yn talu eich CYG Dosbarth 1A

- Y gwall mwyaf cyffredin yw i ychwanegu'r swm Dosbarth 1A at y taliad TWE misol neu chwarterol arferol a'i anfon fel un taliad; fel arfer ym mis Gorffennaf ond o bosib â thaliad cynharach neu hwyrach.

Peidiwch â chynnwys swm Dosbarth 1A gyda thaliad eich TWE/CYG ar gyfer y flwyddyn ddidynnu gyfredol, 2011-12. Mae'r taliad Dosbarth 1A sy'n ddyledus ym mis Gorffennaf 2011 ar gyfer y flwyddyn ddidynnu flaenorol, 2010-11.

Dylid talu CYG Dosbarth 1A ar wahân, naill ai'n electronig neu gan ddefnyddio'r slip talu P30B CL1A a ddarperir. Peidiwch a defnyddio un o'r slipiau talu P30B o Lyfryn Talu y Cyflogwr oherwydd y byddai hynny'n eich gadael un slip talu'n brin ac yn arwain at daliadau'n cael eu dyrannu'n anghywir.

- Gall y cyfeirnod a ddefnyddir ar gyfer taliadau electronig fod yn wall arall. Oherwydd bod y taliad Dosbarth 1A ar gyfer y flwyddyn ddidynnu flaenorol, 2010-11, mae angen yr ychwanegiadau 'blwyddyn a ddaeth i ben' a 'mis treth' cywir ar y cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon, gan wneud y cyfeirnod yn 17 nod o hyd.

Mae'r cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon cywir wedi ei argraffu ar y slip talu P30B CL1A rydym yn ei anfon. Mae'r cyfeirnod yn y fformat 123PA000123451113 (enghraifft yn unig yw'r cyfeirnod hwn ac ni ddylid ei ddefnyddio i wneud taliad).

erthygl yn parhau >

Angen ychydig o gymorth?

Er mwyn gwneud taliad ar gyfer Dosbarth 1A 2010-**11**, dylid ychwanegu **1113** i'ch cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon, gan wneud 123PA000123451**113**. Os, fodd bynnag, eich bod yn talu drwy BillPay, bydd angen i chi ychwanegu 1112 yn lle hynny, am na all y gwasanaeth hwnnw dderbyn 'Mis 13'.

Mae'r pedwar digid olaf yn hanfodol a sicrhewch fod eich taliad yn mynd i'r flwyddyn gywir. Os cânt eu hepgor bydd eich taliad yn mynd yn awtomatig i'r flwyddyn ddidynnu gyfredol yn lle hynny. Gallwch wirio eich cyfeirnod gan ddefnyddio ein gwiriwr cyfeirnod ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/payinghmrc/referencechecker.htm

Mae pob dull talu electronig yn wahanol ac os ydych yn defnyddio un am y tro cyntaf, bwriwch olwg ar www.hmrc.gov.uk/payinghmrc/class1anics.htm

- Gall trydedd broblem godi pan, fel eithriad, fod eich taliad Dosbarth 1A yn cyrraedd cyn bod eich datganiad P11D(b) yn cyrraedd eich cofnod. Os bydd hyn yn digwydd mae'n bosib y caiff eich taliad ei ailddyrannu'n awtomatig i'r flwyddyn dreth gyfredol.

Er mwyn osgoi hyn, sicrhewch eich bod yn anfon eich datganiad mewn da bryd ac erbyn 6 Gorffennaf fan pellaf. Anfonwch eich taliad ar ôl i chi anfon eich datganiad, ond sicrhewch ei fod yn clirio erbyn 22 Gorffennaf os talwch drwy ddulliau electronig, neu os caiff ei dderbyn erbyn 19 Gorffennaf os talwch â siec, neu gallech wynebu llog a chosbau am dalu'n hwyr.

Gobeithio bydd yr wybodaeth uchod yn eich cynorthwyo i osgoi unrhyw broblem wrth i chi dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A ym mis Gorffennaf.

Wyddech chi fod Timau Addysgu a Chefnogi Busnes CThEM yn cynnig cyngor ar bob agwedd o Dreth, Yswiriant Gwladol, TAW a Masnach Ryngwladol drwy amrywiaeth o weithdai a seminarau yn rhad ac am ddim a gaiff eu cynnal ar draws y DU (digwyddiadau Saesneg yn unig)? Os oes grŵp o bobl gennych sydd angen cefnogaeth, mae'n bosib y byddwn hyd yn oed yn gallu dod atoch chi.

Rydym yn cynnig cymorth proffesiynol i bob sector fusnes gan gynnwys cyflogwyr newydd, y rhai hynny sy'n newydd i TAW neu Fasnach Ryngwladol, neu sy'n dod yn gyfarwyddwr cwmni cyfyngedig. Gallwn gynorthwyo i'w gwneud yn haws i ddeall eich cyfrifoldebau treth, gan roi'r hyder i chi gael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys:

- Dod yn gyflogwr – yr hyn sydd angen i chi ei wybod
- TWE – Treuliau a Buddiannau yr hanfodion
- Tâl Salwch Statudol (SSP)
- Tâl Statudol a Seibiant ar gyfer Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu
- TWE cwblhau eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35) (ar gael o fis Mawrth i fis Mai bob blwyddyn)
- TWE cwblhau eich datganiad treuliau a buddiannau diwedd blwyddyn (P11d) (ar gael o fis Mawrth i fis Mehefin bob blwyddyn)
- Dod yn gyfarwyddwr – canllaw ar gyfer Treth ac Yswiriant Gwladol
- Sut mae TAW yn gweithio
- Cyflwyniad i Fasnach Rhyngwladol.

Am restr lawn o'n gweithdai a chyflwyniadau ewch i www.hmrc.gov.uk/bst neu cysylltwch â'n tîm cadw lle ar gyfer gweithdai ar 0845 603 2691 (llinell Saesneg yn unig) er mwyn canfod rhagor ynglŷn â chynnwys y cwrs a'i argaeledd.

Mae oed Pensiwn y Wladwriaeth (SPa) ar gyfer merched yn newid

Mae'r oed pan fydd merched yn cyrraedd SPa yn codi'n raddol i 65. Mae'r newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol ar raddfa symudol (gweler gyferbyn) rhwng 6 Ebrill 2010 a 5 Ebrill 2020 a bydd yn effeithio ar ferched a aned rhwng 6 Ebrill 1950 a 5 Ebrill 1955. Bydd merched a aned ar neu ar ôl 6 Ebrill 1955 ond cyn 6 Ebrill 1959 yn cyrraedd SPa pan yn 65 oed.

Cofnodi cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Nid oes yn rhaid i unrhyw gyflogeion dros yr SPa dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y cyflogai. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gyflogwyr dalu cyfraddau categori C CYG Dosbarth 1 o hyd.

Os ydych yn cyflogi unrhyw ferched dros 60 oed bydd angen i chi barhau i ddidynnu CYG Dosbarth 1 hyd at eu SPa newydd. Sicrhewch fod gennych ddyddiadau geni manwl gywir ar gyfer pob cyflogai er mwyn pennu pryd na fydd angen iddynt bellach dalu CYG Dosbarth 1.

Dyddiadau SPa merched 2011-12

Dyddiad geni Gwraig	Dyddiad oed pensiwn y wladwriaeth	SPa (mewn blynyddoedd a misoedd)
06/09/50 – 05/10/50	06/03/2011	60.6
06/10/50 – 05/11/50	06/05/2011	60.7
06/11/50 – 05/12/50	06/07/2011	60.8
06/12/50 – 05/01/51	06/09/2011	60.9
06/01/51 – 05/02/51	06/11/2011	60.10
06/02/51 – 05/03/51	06/01/2012	60.11
06/03/51 – 05/04/51	06/03/2012	61
06/04/51 – 05/05/51	06/05/2012	61.1

Gwybodaeth bellach:

Er mwyn cyfrifo SPa eich cyflogeion, ewch i www.businesslink.gov.uk/employeepensionage

Ffurflenni TAW ar-lein

Pawb ar-lein yn 2012

O Ebrill 2012, ein cynlluniau cyfredol yw y bydd yn rhaid i bron a bod pawb sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW – gan gynnwys y sawl sydd â throsiant blynyddol o lai na £100,000 – gyflwyno eu Ffurflenni TAW ar-lein a thalu'n electronig.

Â thros 70% o holl fusnesau TAW eisoes wedi ymrestru ac yn cyflwyno ar-lein, carem annog y cwsmeriaid sy'n weddill i fynd ar-lein yn 2011, lle'n bosib. O wneud hynny, byddwch yn gyfarwydd â chyflwyno ar-lein erbyn yr adeg pan ddaw'r terfyn amser, a byddwch yn gweld y manteision mor gynnar â phosib.

Byddwn yn hyrwyddo'r neges honno yn ein cyfathrebiadau a gaiff eu hanfon yn uniongyrchol at gwsmeriaid TAW, fel Nodiadau TAW ac is-bennawdau ar Ffurflenni TAW papur, a byddwn yn atgoffa cwsmeriaid ynglŷn â'r neges os byddant yn cysylltu â'r Llinell Gymorth TAW, neu'n edrych ar yr arweiniad ar ein gwefan.

Tablau dyddiadau dyledus a thaliadau

Mae'r dyddiadau dyledus ar gyfer talu a chyflwyno Ffurflen TAW yn wahanol, yn dibynnu ar ba ddull talu'n electronig a ddefnyddir, ac os cyflwynir Ffurflen TAW ar-lein.

Rydym bellach wedi cyhoeddi dau dabl i'ch cynorthwyo, un yn dangos y dyddiadau dyledus ar gyfer talu TAW yn www.hmrc.gov.uk/vat/managing/returns-accounts/deadlines.htm#2 a'r llall yn dangos terfynau amser TAW yn seiliedig ar y dulliau talu/cyflwyno amrywiol yn www.hmrc.gov.uk/vat/managing/returns-accounts/deadlines.htm#1

Cosbau am beidio â chyflwyno Ffurflenni TAW ar-lein

O fis Ebrill 2011, dechreuodd cyfundrefn gosbau newydd ar gyfer busnesau yr oedd yn ofynnol iddynt i gyflwyno ar-lein o 1 Ebrill 2010, ond sydd yn cyflwyno eu Ffurflenni TAW ar bapur ar gyfer cyfnodau cyfrifo sy'n dod i ben ar neu ar ôl 31 Mawrth 2011. Mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid wedi symud ar-lein heb anhawster, ond mae nifer bychain wedi cadw at bapur, er gwaethaf anfon sawl nodyn atgoffa gennym ni, a chynnig cymorth os oes ei angen arnynt, i ymrestru ar gyfer TAW Ar-lein.

Lle byddwn yn codi cosb, caiff y swm ei bennu gan Drosiant blynyddol Heb Gynnwys TAW y busnes, fel â ganlyn:

Trosiant blynyddol Heb Gynnwys TAW	Cosb
£22,800,001 ac uwch	£400
£5,600,001 i £22,800,000	£300
£100,001 i £5,600,000	£200
£100,000 ac is	£100

Gellir canfod gwybodaeth bellach ynglŷn â chosbau, a'r broses os ydych yn anghytuno â'r modd y cyfrifwyd y gosb yn www.hmrc.gov.uk/vat/managing/problems/penalties.htm

Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr: Newidiadau pwysig

Gwnaethom ddweud wrthych yn rhifyn mis Chwefror o'r Bwletin y byddai newidiadau'n cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2011 i'r wybodaeth y mae'n rhaid i gyflogwyr ei rhoi i'w darparwyr yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr (EL)

Newidiadau rheoleiddiol

Mae'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) yn cyflwyno rheoliadau newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol ar yswirwyr i gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn a'r polisïau yswiriant EL maent yn eu tanysgrifennu. Pwrpas hyn yw i helpu pobl sydd wedi dioddef anaf neu afiechyd yn y gweithle i adnabod yswiriwr EL eu cyflogwr. O ganlyniad, mae'r diwydiant yswiriant wedi sefydlu Swyddfa Olrhain Atebolrwydd y Cyflogwr (ELTO) er mwyn rheoli cronfa ddata ganolog o bolisïau yswiriant y gellir ei ddefnyddio ar gyfer chwilio.

Sut mae hyn yn effeithio arnoch chi

Mae rheoliadau newydd yr FSA yn amlinellu gwybodaeth y polisïau sydd angen ei chipio. Mae hyn yn cynnwys dwy eitem benodol na chafodd eu cipio'n rheolaidd, yn hanesyddol. Y ddwy eitem hon yw:

- Cyfeirnod y Cyflogwr (ERN): Cyfeirir gan amlaf hefyd fel 'Cyfeirnod TWE y Cyflogwr'; caiff yr wybodaeth hon ei rhoi i bob cyflogwr gan CThEM a'i dangos ar nifer o ffurflenni a dogfennau TWE.
- Gwybodaeth Atodol: Bydd yn rhaid darparu manylion ar gyfer pob cwmni y'u cwmpesir gan sicrwydd y polisi. Er enghraifft, lle mae polisi'n perthyn i un rhiant-gwmni a phedwar o'i is-gwmnïau perthynol, mae'n rhaid darparu enw ac ERN y pum cwmni.

Bydd yn orfodol ar yswirwyr i ddangos yr wybodaeth ychwanegol hon am bolisïau ar gyfer pob polisi newydd, a pholisïau sydd wedi'u hadnewyddu o 1 Ebrill 2012. I sicrhau fod paratoadau digonol yn bodoli mae'r diwydiant yswiriant yn dechrau casglu'r wybodaeth ychwanegol hon o fis Ebrill 2011.

Gan fod y newidiadau hyn ar y ffordd, ac yswirwyr yn dechrau casglu'r manylion hyn, mae'n bwysig bod pwy bynnag sy'n delio â'ch sicrwydd yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr yn ymwybodol o hyn, fel y gall eich sefydliad ddechrau paratoi er mwyn darparu'r wybodaeth berthnasol.

Swyddfa Olrhain Atebolrwydd y Cyflogwr (ELTO)

Mae llawer o bobl yn cael eu hanafu neu'n datblygu afiechyd trwy fod mewn cysylltiad â deunyddiau niweidiol yn eu hamgylchedd gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cyflogwr yn dal i fasnachu ac yn dangos manylion ei yswiriwr EL i gyflogeion yn y gweithle. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r cyflogwr yn dal i fasnachu, a gall hyn ei gwneud yn anodd i ddod o hyd i yswiriwr EL a bwrw ymlaen â chais am iawndal.

Gwnaiff ELTO helpu mwy o'r bobl hyn i olrhain yswiriwr EL eu cyflogwr blaenorol drwy ddarparu cyfleuster ymholi ar-lein sy'n chwilio drwy gronfa ddata o bolisïau yswiriant EL.

Caiff y Gronfa ddata EL (ELD) hwn ei lenwi gan yswirwyr, ac o ganlyniad bydd angen iddynt gipio gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r cyflogwr/cyflogwyr wrth ddarparu sicrwydd. Am fwy o wybodaeth ynghylch ELTO, ewch i www.elto.org.uk

Gwariant moduro perthnasol

Mae'n bosib y byddwch yn ymwybodol, yn achos Total People Ltd v Cyllid a Thollau EM, fod y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi dyfarnu o blaid Total People Ltd ac mai'r cyfandaliadau yn yr achos hwnnw oedd taliadau Gwariant Moduro Perthnasol (RME).

Dadleuodd CThEM nad oedd cysylltiad clir rhwng y taliadau a wnaed a'r defnydd gwirioneddol o'r cerbyd gan y cyflogeion unigol, ac mai cyflog ychwanegol oedd y taliadau a wnaed i bob pwrpas, ac yn atebol i CYG Dosbarth 1 llawn.

Fodd bynnag, dadleuodd Total People, gan fod y taliadau wedi'u gwneud i gyflogeion i gydnabod y ffaith fod eu swydd yn gofyn iddynt ddefnyddio'u car at ddibenion busnes, mae'n rhaid mai taliadau RME oeddynt.

Yn dilyn penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf, rhoddwyd yr hawl i CThEM apelio'r penderfyniad i'r Uwch Dribiwnlys ac mae'n mynd ymlaen â'r apêl.

Nid yw penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn ffurfio cynsail cyfreithiol, a gan fod CThEM yn apelio'r penderfyniad mae ein safiad sylfaenol yn parhau heb newid. Er mwyn i daliad gael ei dderbyn fel taliad o RME o fewn ystyr rheoliad 22A(3)(c) o'r Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Cyfraniad) 2001-1004 mae'n rhaid bod yna gysylltiad clir rhwng y taliad a wnaed a'r defnydd gwirioneddol o'r cerbyd.

Bydd unrhyw geisiadau eraill am ad-daliadau, sy'n seiliedig ar yr achos uchod, a dderbynnir gan CThEM yn parhau i gael eu hystyried ar sail eu ffeithiau a'u rhinweddau unigol, ac yn unol â'r safiad hwn.

Didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr

Cyflogai'n gweithio dramor

Mae arweiniad Benthyciadau Myfyrwyr wedi ei ddiweddaru er mwyn dweud wrthych beth i'w wneud os oes gennych unrhyw gyflogeion sy'n gweithio dramor (ac sy'n ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr) ond sy'n parhau i gael eu talu o'ch cyflogres chi. Gellir canfod yr arweiniad wedi'i ddiweddaru yn E17 2011 (canllaw cyflogwr i gasglu Benthyciadau Myfyrwyr – llyfryn Saesneg yn unig) ac fe'i ailadroddir isod.

Os ydych yn parhau i dalu cyflogai tra'u bod yn gweithio dramor, a'ch bod:

- yn parhau i dalu'r cyflogai o'r DU, neu
- yn gweithredu TWE fel petai'r cyflogai yn y DU, neu
- ei bod yn ofynnol arnoch i ddidynnu CYG Dosbarth 1 ar gyfer cyflogai sy'n gweithio neu sydd wedi ei secondio dramor, dylech barhau i wneud didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr tan eich bod yn derbyn Hysbysiad Atal (SL2).

Newidiadau i Lyfrynnau Cymorth y cyflogwr

Llyfryn Cymorth y Cyflogwr E13 (2011) 'Cyflogres o Ddydd i Ddydd'

Gan fod gofyn i bron pob cyflogwr gyflwyno ar-lein, mae CThEM yn disgwyl iddynt ddefnyddio'r arweiniad ynglŷn â'r gyflogres o ddydd i ddydd ar ein gwefan yn www.hmrc.gov.uk/paye/index.htm

Rydym wedi hepgor yr holl arweiniad sy'n ymwneud â chyflwyno electronig o Lyfryn Cymorth y Cyflogwr E13 (2011) 'Cyflogres o Ddydd i Ddydd' (llyfryn Saesneg yn unig). Dim ond cyflogwyr sydd wedi'u heithrio rhag y gofyn i gyflwyno ar-lein ac sy'n defnyddio ffurflenni papur ddylai ddefnyddio'r E13(2011).

Gwall yn Llyfryn Cymorth y Cyflogwr E12 (2011) 'Cyfraddau a therfynau TWE a CYG ar gyfer 2011–12'

Rydym wedi canfod gwall yn rhifyn papur yr E12(2011) ac wedi ei gywiro ar y PDF o'r llyfryn sy'n ymddangos ar ein gwefan. Os ydych eisoes wedi argraffu copi papur o'r llyfryn, mae'r canlynol yn disodli'r tabl ar dudalen 2:

A **Dyddiad gadael ar y P45**	B **Dyddiad y dechreuodd y cyflogai weithio i chi**
Mae P45 y cyflogai'n dangos dyddiad gadael rhwng **6 Ebrill 2011 a 5 Ebrill 2012**	**Mae'r cyflogai'n dechrau gweithio i chi ar neu ar ôl 6 Ebrill 2011.** Defnyddiwch y cod treth sydd ar y P45 a nodwch hwn ym Mlwch L ar y P11.
Mae P45 y cyflogai'n dangos dyddiad gadael rhwng **6 Ebrill 2010 a 5 Ebrill 2011**	**Mae'r cyflogai'n dechrau gweithio i chi yn ystod y cyfnod 6 Ebrill 2011 hyd at 24 Mai 2011.** Defnyddiwch y cod treth sydd ar y P45 ac ychwanegwch 100 i unrhyw god treth sy'n gorffen ag L, er enghraifft daw **647L** yn **747L, ond peidiwch** â chario unrhyw farc wythnos 1/mis 1 ymlaen o'r P45 a nodwch hwn ym Mlwch L o'r P11. **Mae'r cyflogai'n dechrau gweithio i chi ar neu ar ôl 25 Mai 2011.** Defnyddiwch y cod dros dro **747L** ar sail wythnos 1/mis 1 a nodwch hwn ym Mlwch L o'r P11.
Mae P45 y cyflogai'n dangos dyddiad gadael cyn **6 April 2010**	**Mae'r cyflogai'n dechrau gweithio i chi yn ystod y cyfnod 6 Ebrill 2011 hyd at 5 Ebrill 2012.** Defnyddiwch y cod dros dro **747L** ar sail wythnos 1/mis 1 a nodwch hwn ym Mlwch L o'r P11.

Ymgyrch adnewyddu Credydau Treth

Bydd ymgyrch adnewyddu Credydau Treth 2011 yn annog cwsmeriaid i adnewyddu'n gynnar, adnewyddu'n gywir a chyn y terfyn amser, 31 Gorffennaf.

Mae'r ymgyrch adnewyddu flynyddol yn ymgyrch allweddol i CThEM. Y llynedd, methodd 647,000 o gwsmeriaid a chyflawni'u hymrwymiadau, gan golli eu taliadau credydau treth o ganlyniad. Er bod 63% o'r rhain wedi adnewyddu ar ôl hynny, mae'n bosib eu bod wedi dioddef yn ariannol wrth aros i'w taliadau ailddechrau. Prif amcan yr ymgyrch adnewyddu yw i addysgu cwsmeriaid, a'u helpu i hawlio'r arian cywir ar yr amser cywir.

Mae CThEM wedi cyflwyno'r egwyddor o'i 'Gael Yn Iawn y Tro Cyntaf'. Mae'r weithred hon wedi ei seilio ar raglen o addysgu cwsmeriaid, a gwiriadau cyn dyfarnu. Rydym hefyd wedi symud i system gwirio'n gyntaf, talu wedyn, sy'n gam i ffwrdd o'n hymdriniaeth blaenorol sef talu nawr, gwirio wedyn. Datblygwyd yr ymdriniaeth hon fel rhan o'n strategaeth i leihau'r swm o geisiadau twyllodrus a gwallus a wnaed ar gyfer credydau treth.

Fel rhan o'r ymdriniaeth newydd, mae'n bosib y gwnaiff staff CThEM gysylltu â'ch sefydliad er mwyn cadarnhau'r enillion neu'r oriau a weithiwyd gan rai o'ch cyflogeion. Fel arfer, cysylltir drwy deleffon yn ystod y cyfnod Ebrill – Hydref, a bydd yn ymwneud ag un cyflogai penodol yr alwad.

Gellir talu Credydau Treth i unrhyw unigolyn sy'n ennill hyd at £50,000, yn ddibynnol ar ei amgylchiadau/hamgylchiadau personol. O 6 Ebrill 2011 bydd hyn yn lleihau i £40,000.

Os hoffech helpu i sicrhai fod eich cyflogeion yn hawlio'n gywir yr hyn sy'n ddyledus iddynt, rydym wedi cynhyrchu peth deunydd hyrwyddol y gallwch ei lawrlwytho a'i ddefnyddio'n y gweithle (sylwer mai deunydd Saesneg yn unig yw hwn):

- negeseuon y gellir eu defnyddio ar slipiau talu – gweler www.hmrc.gov.uk/paye/employer-bulletin/eb38/taxcreditspayslip.pdf
- erthygl i'w defnyddio os yw'ch cwmni yn cynhyrchu taflen newyddion ar gyfer cyflogeion – gweler www.hmrc.gov.uk/paye/employer-bulletin/eb38/taxcreditsarticle.pdf
- poster y gellir ei arddangos yn y gweithle – gweler www.hmrc.gov.uk/paye/employer-bulletin/eb38/taxcreditsposter.pdf

Bydd annog eich staff i adnewyddu eu ceisiadau am gredydau treth yn gynnar ac yn gywir yn ein helpu i brosesu ceisiadau yn fwy effeithlon, a dylai hyn olygu mai bach iawn fydd y ceisiadau gan CThEM am wybodaeth bellach.

Dyddiadur y Cyflogwr

Ebrill2011

5	Mae'n rhaid i chi anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (ffurflenni P35 a P14) ar gyfer 2010-11 ar-lein. Gellir codi cosbau os fyddwch yn eu hanfon ar bapur.
6	Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r Tablau Tâl Trethadwy B i D o heddiw ymlaen. Gwiriwch eich bod wedi gwneud yr holl newidiadau angenrheidiol i godau treth eich cyflogeion ar gyfer 2011-12 fel yr esbonir ar y P9X. Defnyddwyr cyflogres gyfrifiadurol – sicrhewch eich bod wedi diweddaru paramedrau eich cyflogres a bod gennych y fersiwn cywir o'r feddalwedd ar gyfer 2011-12.
Canol i Ddiwedd	Os gwnaethoch gofrestru'n ddiweddar i ddefnyddio TWE Ar-lein ar gyfer Cyflogwyr, edrychwch allan am eich PIN Cychwyn (a sicrhewch eich bod wedi gwneud nodyn o'ch ID Defnyddiwr) – mae'n rhaid i chi rhoi'r gwasanaeth ar waith o fewn 28 diwrnod.
19	Dylai taliadau â siec ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ebrill gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn. Y dyddiad olaf er mwyn talu â siec TWE a CYG Dosbarth 1 sy'n ddyledus ar gyfer 2010-11 i gyrraedd ein Swyddfa Gyfrifon. Byddwn yn codi llog ar unrhyw daliadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.
22	Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ebrill fod wedi'u clirio yn ein cyfrif banc. Y dyddiad olaf er mwyn talu TWE a CYG Dosbarth 1 sy'n ddyledus ar gyfer 2010-11 i gyrraedd ein cyfrif banc. Byddwn yn codi llog ar unrhyw daliadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Mai2011

Cynnar	Dylech ddisgwyl eich rhybuddion e-bost a fydd yn eich hysbysu am unrhyw ddiweddariadau i'r Offer TWE Sylfaenol yn dilyn y Gyllideb; a'ch Bwletin y Cyflogwr ar-lein.
3	Ffurflenni P46(Car) ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ebrill i'n cyrraedd erbyn y dyddiad hwn.
9	Y dyddiad olaf ar gyfer cofrestru i ddefnyddio TWE Ar-lein ar gyfer Cyflogwyr os yw'n ofynnol i chi wneud hynny, neu os ydych yn bwriadu Anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr 2010-11 ar-lein.
19	Dylai taliadau â siec ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Mai gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn. Y dyddiad olaf i Ddatganiadau Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) gyrraedd ein swyddfa. Byddwn yn codi cosbau ar unrhyw Ddatganiadau a dderbynnir yn hwyr.
20	Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Mai fod wedi'u clirio yn ein cyfrif banc.
31	Y dyddiad olaf ar gyfer rhoi ffurflen P60 i bob cyflogai sy'n gweithio i chi ar 5 Ebrill 2011.

Mehefin2011

Cynnar	Os oes gennych Gynllun Cyfranddaliadau Cymeradwy a Gwarantau Perthynol i Gyflogaeth, yna argymhellwn eich bod yn gorffen llenwi eich datganiadau blynyddol ar gyfer 2010-11 – Ffurflen 34, Ffurflen 35, Ffurflen 39, Ffurflen 40 a Ffurflen 42 – er mwyn sicrhau ein bod yn eu derbyn cyn 6 Gorffennaf 2011.
19	Dylai taliadau â siec ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Mehefin gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.
22	Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Mehefin fod wedi'u clirio yn ein cyfrif banc.

Dyddiadur y Cyflogwr

Gorffennaf2011

5 Y dyddiad olaf i gytuno eich Cytundeb Setliad TWE ar gyfer 2010-11 (os oes un).

6 Y dyddiad olaf i ffurflenni P11D(b), P9D a P11D ein cyrraedd. Y dyddiad olaf i roi ffurflenni P9D a P11D i gyflogeion perthnasol. Y dyddiad olaf i ddatganiadau blynyddol Ffurflen 34, Ffurflen 35, Ffurflen 39, Ffurflen 40 a Ffurflen 42 ein cyrraedd.

19 Dylai taliadau â siec ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Gorffenaf gyrraedd ein Swyddfa Gyfrifon.

Dylai taliadau â siec ar gyfer CYG Dosbarth 1 ar gyfer 2010-11 gyrraedd ein Swyddfa Gyfrifon. Mae'n bosib y codir llog a chosbau ar daliadau a wnaed ar ôl y dyddiad hwn.

22 Dylai taliadau â electronig ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Gorffennaf fod wedi'u clirio yn ein cyfrif banc.

Dylai taliadau electronig ar gyfer CYG Dosbarth 1 ar gyfer 2010-11 fod wedi'u clirio yn ein cyfrif banc. Mae'n bosib y codir llog a chosbau ar daliadau a wnaed ar ôl y dyddiad hwn.

Awst2011

2 Dylai ffurflenni P46(Car) ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 5 Gorffennaf ein cyrraedd erbyn y dyddiad hwn.

19 Dylai taliadau â siec ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Awst gyrraedd ein Swyddfa Gyfrifon.

22 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Awst fod wedi'u clirio yn ein cyfrif banc.

Medi2011

19 Dylai taliadau â siec ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Medi gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

22 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Medi fod wedi'u clirio yng nghyfrif banc CThEM.

Hydref2011

1 Mae cyfraddau Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn cynyddu o'r diwrnod hwn. Am wybodaeth bellach gweler www.businesslink.gov.uk

19 Dylai taliadau â siec ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Hydref gyrraedd ein Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

Dylai taliadau â siec ar gyfer eich Cytundeb Setliad TWE ar gyfer 2010-11 (os oes un) gyrraedd ein Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

22 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Hydref fod wedi'u clirio yng nghyfrif banc CThEM erbyn y dyddiad hwn.

Dylai taliad electronig ar gyfer eich Cytundeb Setliad TWE ar gyfer 2010-11 (os oes un) fod wedi'i glirio yn ein cyfrif banc erbyn y dyddiad hwn.

Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

Llinell Gymorth – cyngor teleffon a Llinell Archebu – archebwch eich ffurflenni ac arweiniad.

Efallai y caiff galwadau eu monitro at ddibenion hyfforddi a rheoli ansawdd

I gael mynediad at ystod eang o wybodaeth ar gyfer cyflogwyr ar amser sy'n gyfleus i chi, ewch i dudalennau'r Cyflogwyr ar ein gwefan yn www.businesslink.gov.uk/paye

Materion cyflogres cyffredinol ynglŷn â'r gyflogres

Canolfan Gyswllt Gymraeg	**0845 302 1489**	Llun-Gwener 8.30am-5pm Bydd peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau hyn.
Ffacs	**01766 516100**	(Defnyddiwch y Ffurflen Archebu â Ffacs)
Ffôn Testun	**0845 6 021 380**	ar gyfer cyflogwyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw (dim ond pobl gyda'r offer arbennig fel Minicom all ddefnyddio'r rhif hwn)
Gwefan	**www.hmrc.gov.uk/employers/cymraeg** gellir llwytho'r rhan fwyaf o'r ffurflenni a fydd eu hangen arnoch i lawr o CD-ROM y Cyflogwr	

Canllawiau

Gwefan	www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm

Gwasanaeth Saesneg yn unig a geir ar y rhifau isod

Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS)

Llinell Gymorth CIS	**08453 667 899**	Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm
Minicom	**08453 667 894**	

CYG: Pynciau Arbennig

Llinell Gymorth a Llinell Archebu Pensiynau wedi'u contractio allan	**08459 150 150**	Llun-Gwener 8am-5pm
Llinell Gymorth a Llinell Archebu ar gyfer pobl dibreswyl yn y DU	**08459 154 811**	Llun-Gwener 8am-5pm

Cyflog a Hawliau Gwaith

Llinell Gymorth	**0800 917 2368**	Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 9am-1pm
Llinell Archebu	**08458 450 360**	7 diwrnod yr wythnos 24 awr

Llinellau Cymorth Eraill

Desg Gymorth Gwasanaethau Ar-lein CThEM*	*gan gynnwys cefnogaeth dechnegol ynghylch CD-ROM y Cyflogwr	
Llinell Gymorth	**08456 055 999**	Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm
e-bost	helpdesk@ir-efile.gov.uk	
Ymholiadau ynglŷn â thaliadau TWE/HA	**08453 667 816**	Llun-Gwener 8am-8pm Sadwrn 8am-4pm